



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 1 Ebrill 2025 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 1 April 2025 at 6.00pm
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors: Olwen Davies (**yn y gadair** / in the chair), Catrin Miles, Richard Davies, Trystan Phillips, Siân Maehrlein, David Maehrlein, Nick Bolton, John Adams-Lewis, Teresa Harries, Elaine Evans, Mark Cole, Clive Davies, Richard Jones, Mike Lewis (Tivyside) Llinos Haf-Jones (**Cyfieithydd** / Translator) a / and Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

Ymunodd aelod o'r cyhoedd, Richard James, â'r cyfarfod i arsylwi Eitem 9. c) Gohebiaeth Rhif 34 yn cael ei thrafod. Cytunodd y cynghorwyr i ddod â'r mater i ddechrau'r cyfarfod gan ganiatáu i Mr James adael ar ôl tua 10 munud / A member of the public, Richard James, joined the meeting to observe Item 9. c) Correspondence Number 34 being discussed. Councillors agreed to bring the matter to the beginning of the meeting allowing Mr James to leave after approximately 10 minutes.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cyng Olwen Davies, ei chyd-gynghorwyr i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am eu presenoldeb. Llongyfarchodd y cynghorwyr ei gyd-aelod Trystan Phillips ar ei benodiad diweddar fel Pennaeth nesaf Ysgol Uwchradd Aberteifi. Diolchodd y Cyng Phillips iddynt i gyd am eu dymuniadau caredig ac arddangosodd ei anrheg, llun o Aberteifi, a drefnwyd gan y Maer. Diolchodd y Cyng Richard Jones hefyd i'r cynghorwyr am eu negeseuon gwella, ar ôl damwain diweddar a achosodd niwed i'w arddwrn. Trefnodd y Maer anrheg, llyfr am gaws, a cherdyn wrth glywed y newyddion. Dymunodd yr aelodau ddiolch i'r Cyng Teresa Harries, ar ei hymdrechion i drefnu bore coffi yn y Clwb Bowlio gyda'r elw yn mynd i Ofal Canser Aberteifi. Codwyd cyfanswm o £2290, ymdrech wych gan bawb a fu'n helpu a chefnogaeth gan bawb a fynychodd.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Olwen Davies, welcomed her fellow councillors to the meeting and thanked them for their presence. All councillors congratulated fellow member Trystan Phillips on his recent appointment as the next Headteacher at Ysgol Uwchradd Aberteifi. Cllr Phillips thanked them all for their kind wishes and displayed his gift, a print of Cardigan, which had been organised by the Mayor. Cllr Richard Jones also thanked the councillors for their get-well messages, after a recent accident-causing harm to his wrist. The Mayor organised a gift, a book about cheese, and card on hearing the news. Members wished to thank Cllr Teresa Harries, on her efforts to organise a coffee morning at the Bowling Club with the proceeds going to Cardigan Cancer Care. A total sum of £2290 was raised, a great effort by all who helped and the support from all who attended.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.
Y Cyng Philippa Noble – rhesymau personol.**

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.
Cllr Philippa Noble – personal reasons.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

<i>Y Cyng / Cllr Siân Maehrlein: Pob mater yn ymwneud â chynllunio / All matters relating to planning.</i>	<i>Mae'r cyngorwyr yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio / The councillors sits on the planning committee.</i>
<i>Y Cyng / Cllr Richard Jones: Eitem 8 – Cais Ymgynghori cyn ymgeisio, Fferm Crugmor, Penparc, Aberteifi / Item 8 – Pre-Application Consultation Request, Crugmore Farm, Penparc, Cardigan.</i>	<i>Mae'r cyngorydd yn berchen ar y tir cyfagos / The councillor owns the neighbouring land.</i>
<i>Y Cyng / Cllr Siân Maehrlein a David Maehrlein: Eitem 9 c) Gohebiaeth rhif 33 / Item 9 c) Correspondence number 33: Terfynau oriau dros dro, agora r y penwythnos y CGIA / Termination of the CICC's temporary weekend opening hours.</i>	<i>Mae gan y cyngorwyr aelodau teulu sy'n gweithio yn y CGIA / The councillors have family members who work at the CICC.</i>

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 4 Mawrth 2025. Cynigiodd y Cyngorwyr fod cofnodion cyfarfod y cyngor nos Fawrth, 4 Mawrth yn cael eu cofnodi fel rhai cywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 4 March 2025.
The Councillors proposed that the Tuesday, 4 March council meeting minutes be recorded as correct.

6. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Clerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2025.

- Mae'r cais i gau'r ffordd ar gyfer Dydd Sadwrn Barlys wedi'i gymeradwyo.
- Mae wyneb y cwrt tennis wedi'i gwblhau a bydd y giât newydd yn cael ei gosod ddydd Llun nesaf. Unwaith y byddaf wedi derbyn hyfforddiant ar sut i weithredu'r system archebu a thalu ar gyfer defnyddio'r cyrtiau bydd y giât yn cael ei chloi.

Clerc's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 4 March 2025.

- The road closure application for Barley Saturday has been approved.
- The tennis court surface has been completed and the new gate will be installed next Monday. Once I have received training on how to operate the booking and paying system for use of the courts the gate will be locked.

7. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat
I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

Item 9. h) Ceisiadau am gymorth ariannol.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

Item 9. h) Applications for financial aid.

8. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A240782	TID Holdings Ltd, Land at Maes y Dderwen, Aberteifi, SA43 1PE	<i>Datblygiad Tai Arfaethedig Yn cynnwys 48 o Anheddau (gan gynnwys 10 Fforddiadwy) gyda Seilwaith Cysylltiedig / Proposed Housing Development Consisting of 48 Dwellings (including 10 Affordable) with Associated Infrastructure.</i>	<i>Roedd y Cynghorwyr yn cydnabod y gwelliannau / Councillors acknowledged the amendments.</i>
A250161	H Roberts, Bryn Wawr, Heol Caemorgan, Aberteifi, Sa43 1QU.	<i>Garej newydd arfaethedig, o strwythur concrit parod presennol i garej ffrâm bren sy'n ddymunol yn esthetig gan gynnwys yr holl waith cysylltiedig / A proposed replacement garage, from an existing prefabricated concrete structure to an aesthetically pleasing, timber frame/timber clad garage to include all associated works.</i>	<i>Roedd y Cynghorwyr yn cefnogi'r cais hwn / Councillors supported this application.</i>

Cais Ymgynghori Cyn Ymgeisio: Ehangu'r cyfleuster treulio anaerobig presennol ar gyfer lleoli dau lagŵn storio dan orchudd, tanc aeddfedu a seilwaith cysylltiedig yn Fferm Crugmor, Penparc, Aberteifi, SA43 1QY.

Penderfynwyd cydnabod y cais am ymgynghoriad cyn ymgeisio.

Pre-Application Consultation Request: Expansion of existing anaerobic digestion facility for proposed siting of two covered storage lagoons, maturation tank and associated infrastructure at Crugmore Farm, Penparc, Cardigan, SA43 1QY.

It was resolved to acknowledge the pre-application consultation request.

9. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>

		but agreed that Keith Ladd may be a source of information.
4	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Gohirio'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol / Postponing the Annual General Meeting.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 04/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 04/03/2025.
5	Rose Barter – <i>Er Mwyn Diogelwch / For Safety's Sake: Diweddariad / Update.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 05/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 05/03/2025.
6	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Adroddiad y Senedd – Ymchwiliad I rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cyngorau tref a chymuned / Senedd Report – Inquiry into the role, governance and accountability of the community and town council sector.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 06/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 06/03/2025.
7	Pamela Gaunt, Friends of Netpool Park – <i>Diweddariad cyfarfod canolfan trin dŵr gwastraff / Waste water treatment centre meeting update.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 06/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 06/03/2025.
8	Cath Rigler, Hijinx.Org.uk: <i>Cyfle i oedolion niwroamrywiol weithio ar berfformiad theatre / Opportunity for neurodiverse adults to work on theatre performance.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 07/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/03/2025.
9	Rachel Carter, <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Pethau Bychain: Gweminar Morloi – Panda Mawr Cymru / Webinar Seals - Wales' Giant Panda.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 10/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/03/2025.
10	John Davies – <i>Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Y Garreg Las / Chairman of the Executive Committee: Diolch am y rhodd, manylion gwariant / Thank you for the grant, spending details.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 10/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/03/2025.
11	Shereen Williams – <i>Prif Weithredwr, y Comisiwn Ffiniau Democrataidd / Chief Executive, Democratic Boundary Commission: Penderfyniadau Terfynol Arolwg y Senedd / Senedd Review Final Determinations.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 11/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/03/2025.
12	Y Cyng/Cllr Catrin Miles: <i>Bore Coffi Brioude bore Sadwrn 15 o Fawrth / Brioude Coffee Morning Saturday 15 March.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 11/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/03/2025.
13	<i>Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise Community Forest Garden: Cyfnewid Hadau a Chaffi / Seed Swap and Café.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 11/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/03/2025.
14	Rebecca Jones – <i>Rheolwr Ymgysylltu Cymunedol, Dŵr Cymru / Community Engagement Manager, Welsh Water: Cyfarfod Ilwybr mynediad GTDG Aberteifi, cyflwyniad a chofnodion, camau gweithredu / Cardigan WwTW access route meeting, presentation and minutes, actions.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 11/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/03/2025.
15	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cronfa grant Arloesi Tlodi Plant a Chefnogi Cymunedau / Child Poverty Innovation and Supporting Communities grant fund.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 11/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/03/2025.
16	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn mis Mawrth i Mehefin / Remote training sessions that are taking place in March to June.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 11/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/03/2025.
17	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Digwyddiadau Ar-lein i ddod gan y Tîm Cymorth Argyfwng Costau Byw / Upcoming Online Events from the Cost of Living Crisis Support Team.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 13/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/03/2025.

18	Tanya Collins – <i>Ysgrifenyddes Clwb Rygbi Aberteifi / Secretary Cardigan Rugby Club: Cais am gefnogaeth o Osod Panel Solar / Support request for Solar Panel Installation.</i>	<i>Penderfynodd y Cynghorwyr gytuno i osod Paneli Solar, ond mynnodd fod y brydles yn cael ei harwyddo cyn anfon llythyr o gefnogaeth / Councillors resolved to agree to the Solar Panel installation, but demanded that the lease be signed before a letter of support is forwarded.</i>
19	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Canllawiau Digidol / Digital Guidance.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 17/03/2025. For your information. Forwarded to all councillors on 17/03/2025.</i>
20	Teleri Davies – <i>Rheolwr Sgiliau a Chefnogaeth / Skills and Support Manager, CAVO: Cynllun Grant Mannau Gwyrdd Ceredigion / Ceredigion Green Spaces Grant Scheme.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 17/03/2025. For your information. Forwarded to all councillors on 17/03/2025.</i>
21	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru / One Voice Wales National Awards Conference.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 17/03/2025. For your information. Forwarded to all councillors on 17/03/2025.</i>
22	<i>CSC Gorchymyn Cadw Coed 2025 Rhif 4 (9 o goed i'r de o Faes y Dderwen) / CCC Tree Preservation Order Regulation 4 (9 trees to the right of Maes y Dderwen).</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 17/03/2025. For your information. Forwarded to all councillors on 17/03/2025.</i>
23	Rose Barter – <i>Er Mwyn Diogelwch / For Safety's Sake: Diweddariad / Update.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 17/03/2025. For your information. Forwarded to all councillors on 17/03/2025.</i>
24	Zurich Insurance Renewals Team: <i>Cynnydd premiwm / Premium increase.</i>	<i>Penderfynwyd derbyn y premiwm yswiriant uwch oherwydd prisiau newydd y Cadwyni Swyddi / It was resolved to accept the increased insurance premium due to the new valuations of the Chains of Office.</i>
25	Morvenna Dorita – <i>Cadw estyniadau palmant / Retention of pavement extensions.</i>	<i>Penderfynwyd rhoi gwybod i Ms Dorita am gymorth grant posibl y mae'r cyngor yn dymuno ei archwilio i wella golwg yr estyniadau / It was resolved to advise Ms Dorita of possible grant aid the council wish to explore to improve the appearance of the extensions.</i>
26	Bridget Hiser – <i>We say No To Cardigan Town Pedestrianisation: Cynlluniau Lle Aberteifi a Strategaeth Adfywio / Cardigan Place Plans and Regeneration Strategy.</i>	<i>Nodwyd / Noted.</i>
27	Jake Rayson – <i>Cynorthwydd Bioamrywiaeth, CSC / Biodiversity Assistant, CCC: Diweddariad ar maes Rhos y Dre / Update on the Rhos y Dre Site.</i>	<i>Gweler Eitem 9 e) / See item 9 e).</i>
28	<i>Gwasanaethau Eiddo, CSC / Property Services, CCC: Toiledau Cyhoeddus / Public Conveniences.</i>	<i>Gweler pwynt 9. d) ar yr Agenda / See point 9. d) on the Agenda.</i>
29	Felicity McGowan: <i>Llif traffig I / Flow of traffic to Aldi and Home Bargains.</i>	<i>Nid yw'r materion hyn o fewn rheolaeth y cyngor tref, byddai llif rheolaeth traffig wedi ei gynnwys o dan y datganiadau trafndiaeth yn y cais cynllunio / These matters are not within the control of the town council, the flow of traffic control would have been included under transport statements in the planning application.</i>
30	Donnah Lewis – <i>Cyfleusterau cyhoeddus yng Nghanol Tref Aberteifi / Public facilities in Cardigan Town Centre.</i>	<i>Mae cyngorwyr yn cydnabod y pryderon a rennir gan Dr Lewis, mae cyflwr gwael y toiledau wedi'i anfon ymlaen i CLIC gan y Cyng Elaine Evans / Councillors acknowledge the concerns shared by Dr Lewis, the poor state of the toilets has been forwarded to CLIC by Cllr Elaine Evans.</i>
31	Y Cyng/Cllr Olwen Davies: <i>Baneri'r Ddraig Gymreig a Thoiledau'r Mwldan Isaf / Welsh Dragon Flags and the Lower Mwldan Toilets.</i>	<i>Penderfynwyd ailosod flagiau a baneri Cymru cyn dydd Sadwrn Barlys. Ymunodd y Cyng Olwen Davies a'i thad â'r Cyng Elaine Evans i ymchwilio i'r toiledau a chytunwyd eu bod mewn cyflwr gwael iawn o ran</i>

		glendid / It was resolved to replace the Welsh Flags and bunting before Barley Saturday. Cllr Olwen Davies and her father, joined Cllr Elaine Evans to investigate the toilets and agreed they were in a very poor state of cleanliness.
32	Rose Barter – <i>Er Mwyn Diogelwch / For Safety's Sake: Datganiad i'r wasg a lluniau / Press release and photos.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 26/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 26/03/2025.
33	Y Cyng/Cllr Olwen Davies: <i>Terfynu oriau dros dro, agor ar y penwythnos, y CGIa ar 30 Mawrth / Termination of the CICC's temporary weekend opening hours on 30 March.</i>	<i>Cytunwyd bod yr oriau agor ar y penwythnos yn llwyddiannus a bod eu hangen yn fawr. Penderfynodd y Cynghorwyr ysgrifennu at gynrychiolydd Ceredigion, Elin Jones AS, a'r aelodau rhanbarthol Eluned Morgan AS, Cefin Campbell AS, Joyce Watson AS a Jane Dodds AS i ofyn am adfer y gwasanaeth yn barhaol / It was agreed that the weekend opening hours were successful and much needed. Councillors resolved to write to Ceredigion representative Elin Jones MS, and regional members Eluned Morgan MS, Cefin Campbell MS, Joyce Watson MS and Jane Dodds MS to ask for the service to be reinstated on a permanent basis.</i>
34	Richard James – <i>Cyn-Gadeirydd Clwb Rhwyfo Aberteifi / Ex-Chairman of Cardigan Rowing Club: Prosiect llithrfa Netpwl / Netpool slipway project.</i>	<i>Penderfynodd y Cynghorwyr beidio â mynnu bod yr arian grant a roddwyd i'r prosiect hwn yn cael ei ddychwelyd, yn unol â chais Mr James. Y Clerc i geisio sicrwydd bod yr arian yn ddiogel a gwarant y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl / Councillors resolved not to demand the grant money awarded to this project to be returned, as requested by Mr James. The Clerk to seek assurance that the money is safe and a guarantee that the work will be completed as soon as possible.</i>
35	<i>Cynnal y Cardi – Bwletin mis Mawrth / March Bulletin</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 28/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/03/2025.
36	<i>CSC Adain Cau Ffyrrd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Dydd Sadwrn Barlys / Barley Saturday 13.13-17.30 ar/on 26/04/2025.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 28/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/03/2025.
37	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Beth yw eich barn ar Ganllawiau Deddf Teithio Llesol? / What are your views on the Active Travel Art Guidance?</i>	<i>Cynghorwyr i ymateb yn unigol i'r arolwg hwn / Councillors to respond individually to this survey.</i>
38	Rebecca Jones – <i>Rheolwr Ymgysylltu Cymunedol, Dŵr Cymru / Community Engagement Manager, Welsh Water: Digwyddiad gwybodaeth Canolfan Trin Dŵr Gwastraff Aberteifi / Cardigan Wastewater Treatment Works information event.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 28/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/03/2025.
39	Gill Wislocka – <i>Ysgrifenyddes Llwybrau Llandudoch ar ran Taith Dyffryn Teifi / Secretary St Dogmaels Footpath Association on behalf of Teifi Valley Trail Association: Difrod i sedd lechen yn Gilfach Penbont / Damage to slate seat in Gilfach Penbont.</i>	<i>Mae Cyng Elaine Evans wedi ymweld â'r safle i archwilio'r difrod, mae lluniau wedi eu hanfon ymlaen i CSC. Mae'r Cyngorydd Catrin Miles wedi gofyn i Westy'r Albion gael mynediad i'w TCC i weld a gafodd y weithred o ddifrodi'r sedd ei recordio ar eu systemau / Cllr Elaine Evans has visited the site to inspect the damage, photos have been forwarded to CCC. Cllr Catrin Miles has asked the Albion Hotel to access their CCTV to see if the action damaging the seat was recorded on their systems.</i>

d) Cytundebau Lefel Gwasiaeth CSC ar gyfer toiledau Aberteifi.

Penderfynwyd arwyddo'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd cynghorwyr

yn dymuno gofyn am ddileu'r gost Atgyweirio a Chynnal a Chadw, gan ganiatáu i'r cyngor tref wneud y gwaith hwn pan fo angen, ar gyfer gwasanaeth cyflymach a mwy fforddiadwy. Mae cynghorwyr eisiau caniatâd i gloi'r cyfleusterau dros nos.

CCC Service Level Agreements for Cardigan toilets.

It was resolved to sign the Service Level Agreements. However, councillors wished to request that the Repair and Maintenance cost be removed, allowing the town council to carry out this work when needed, for a faster more economical service. Councillors want permission to lock the facilities overnight.

e) Adroddiad ar Ymgynghoriad Gardd Gymunedol Rhos y Dre.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu gyda BlueGreen Cymru, a fydd yn cwblhau'r cais am grant ac yn gweithio ar y safle, a Jake Rayson, Swyddog Bio-Amrywiaeth i CSC. Roedd yr adroddiad yn dangos tystiolaeth, trwy broses ymgynghori, fod cefnogaeth enfawr yn yr ardal leol ar gyfer gardd gymunedol. Roedd y nodweddion mwyaf poblogaidd yn cynnwys seddau a byrddau, perlysiâu, coed a blodau. Mae Mr Rayson ar hyn o bryd yn trafod y caniatâd i drawsnewid y safle yn ardd. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu rhoi ar yr Agenda nesaf. Report on the Rhos y Dre Community Garden Consultation.

The report has been shared with BlueGreen Cymru, who will be completing the grant application and work at the site, and Jake Rayson, a Bio-Diversity Officer for CCC. The report showed evidence, through a consultation process, that there was overwhelming support in the local vicinity for a community garden. The most popular features included seating and tables, herbs, trees and flowers. Mr Rayson is currently discussing the permission to transform the site into a garden. Further updates will be placed on the next Agenda.

f) Caeau chwarae Brenin Siôr V.

Amlinellodd y Cyng Richard Davies y gwaith cynnal a chadw hanfodol sydd ei angen yn awr yn y maes chwarae - ailosod matiau o dan yr offer, codi'r meinciau, a lefelu'r arwynebau, sydd hefyd angen ei wneud ar y cae pêl-droed. Penderfynodd y Cynghorwyr ganiatáu i'r Clerc weithio gyda'r Cyng Richard Davies ar gost y gwaith a dod o hyd i gcontractwyr. Mae angen newid rhai offer chwarae hefyd, y Clerc i edrych ar grantiau i ariannu'r elfen hon. King George V playing fields.

Cllr Richard Davies outlined the essential maintenance now required in the play area - replacing matting under the equipment, raising the benches, and levelling the surfaces, which also needs to be carried out on the football field. Councillors resolved to allow the Clerk to work with Cllr Richard Davies on the cost of the work and sourcing contractors. Some play equipment also needs replacing, the Clerk to look at grants to fund this element.

g) Ffrâm beic gadawedig wedi'i chadwyni i'r stondin beiciau ar Grosvenor Hill.

Penderfynwyd symud y beic hwn, mae'r beic, sydd mewn cyflwr gwael, wedi'i adael ar y safle hwn ers 12 mis.

Abandoned bike frame chained to bike stand on Grosvenor Hill.

It was resolved to remove this bike, the bike, which is in poor condition, has been abandoned at this site for 12 months.

10. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer.

1 Mawrth	Cyfweliad Radio Cymru am lanw uchel.
6 Mawrth	Cyfarfod PACT.

6 Mawrth	Cyfarfod Diweddardiad gwaith Dwr Cymru.
8 Mawrth	Lansio HWB Aberteifi yn y Gyfnewidfa Yd.
10 Mawrth	Anfon cerdyn ac anrheg gwella gloi i'r Cyng Richard Jones pan gafodd ddamwain i'w arddwrn.
12 Mawrth	Cyfarfod Cynllun Llifogydd.
15 Mawrth	Bore Coffi Brioude.
16 Mawrth	Llythrau wedi'u dosbarthu yn hysbysu trigolion ar sut i gofrestru ar gyfer y cynllun lliniaru llifogydd.
17 Mawrth	Cyfarfod Pwyllgor Gwaith Eisteddfod y Garreg Las.
22 Mawrth	Ymunais â'r Cynghorydd Elaine Evans ar daith o amgylch toiledau canol y dref i asesu difrod fandaliaeth.
22 Mawrth	Rhannu gwybodaeth ynglŷn â choed wedi'i difrodi ac ail-baentio Cei'r Tywysog Siarl â'r Cynghorydd Sir Elaine Evans.
23 Mawrth	Agoriad swyddogol meinciau newydd yn Netpool.
29 Mawrth	Bore coffi elusennol ar gyfer Gofal Canser Aberteifi.
29 Mawrth	Anfonais cerdyn llongyfarch ac anrheg i'r Cynghorydd Trystan Phillips ar ei benodiad yn Bennaeth newydd yn Ysgol Uwchradd Aberteifi.

Mayor's Diary

1 March	Radio Cymru interview about high tides.
6 March	PACT Meeting.
6 March	Welsh Water update meeting.
8 March	Launch of HWB Aberteifi at the Corn Exchange.
10 March	Sent a card and get-well gift to Cllr Richard Jones when he suffered an accident to his wrist.
12 March	Flood Plan Meeting.
15 March	Brioude Coffee Morning.
16 March	Distributed letters informing residents on how to register for the flood alleviation scheme.
17 March	Eisteddfod y Garreg Las working group meeting.
22 March	Joined Cllr Elaine Evans on a tour of town centre toilets to assess vandalism damage.
22 March	Shared information regarding damaged tree and repainting of Prince Charles Quay to County Cllr Elaine Evans.
23 March	Official opening of new benches located at Netpool.
29 March	Charity coffee morning for Cardigan Cancer Care.
29 March	Sent a congratulations card and gift to Cllr Trystan Phillips on his appointment as the new Headteacher at Ysgol Uwchradd Aberteifi.

b) Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

- Mynychais gyfarfod diweddarau Canolfan Trin Gwastraff Dŵr Cymru ar-lein.
- Mae adran Ystadau/Gwasanaethau Eiddo CSC wedi rhoi gwybod i mi, ar fy nghais i ail-baentio'r arysgrif yng Nghei'r Tywysog Siarl, nad yw'r seiri maen lleol yn dymuno cyflwyno dyfynbrisiau am y gwaith. Gofynnir i'r contractwr, sy'n adnewyddu'r gofeb ryfel yn Llanbedr Pont Steffan ar hyn o bryd, gyflwyno dyfynbris.

- Es i fore coffi Brioude yn y Ferwig, gyda Cyng Olwen Davies.
- Mwynheais fy amser gyda staff Tesco yn fawr, gan roi cyfle i ddewis un tocyn aur allan o fag o docynnau glas. Pe bai'n llwyddiannus, byddai £5,000 ychwanegol yn cael ei ddyfarnu i'r elusen o'u dewis allan o'r tair yn y cylch ceisiadau presennol.
- Mae'r cwpl anabl, rwyf wedi bod yn ymladd i helpu i aros yn eu tai dros dro, wedi cael y newyddion da yn ddiweddar y gallant fyw yno'n barhaol.
- Dosbarthu mwy o daflenni a bagiau cŵn drwy'r dref.
- Mynychais cyfarfod Eisteddfod y Garreg Las, yn y Castell
- Ymunodd y Cyng Olwen Davies a'i thad â mi ar daith o amgylch toiledau'r dref ar ôl clywed am gyfres o fandaliaeth. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw fandaliaeth ond mae cyflwr anhylan y Mwldan Isaf wedi cael ei adrodd i CSC ac maent wedi cadarnhau y bydd glanhawr yn cael ei anfon i'r eiddo.
- Mynychais gyfarfod yn y Depo gyda'r heddlu i siarad â'r rheolwyr a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Mae'r draeniau ar Ffordd yr Orsaf wedi'u blocio, mae CSC yn ymwybodol, a byddant ar y safle i unioni'r sefyllfa cyn gynted â phosibl.
- Bu'n rhaid tynnu'r goeden wrth ymyl yr Angel oherwydd iddi bwyso'n beryglus ar ôl storm Darrah. Ar ôl ymchwilio ymhellach mae'r Cynghorydd Nick Bolton wedi cadarnhau bod y goeden wedi pydru y tu mewn.
- Rwyf wedi anfon lluniau o'r sedd llechi a ddifrodwyd yng Ngilfach Penbont i CSC, a gofyn iddynt ei thrwsio.
- Mynychais y bore coffi yn y Clwb Bowlio a gynhaliwyd gan y Cyng Teresa Harries er budd Gofal Canser Aberteifi.

Cllr Elaine Evans Teifi Ward

- I attended the Welsh Water Waste Treatment Centre update meeting online.
- The CCC Estates/Property Services department have informed me, on my request to have the inscription at Prince Charles Quay repainted, that the local stonemasons do not wish to submit quotes for the work. The contractor, currently refurbishing the war memorial in Lampeter, will be asked to submit a quote.
- I went to the Brioude coffee morning in Ferwig, with Cllr Olwen Davies.
- I thoroughly enjoyed my time adjudicating the blue tokens with staff, allowing a chance to pick one single golden token out of a bag of blue tokens. If successful, an extra £5,000 would be awarded to their chosen charity out of the three in the current bidding round.
- The disabled couple, I have been fighting to help stay in their temporary housing, have been recently given the good news that they can live there permanently.
- Distributed more leaflets and dog bags through the town.
- I attended the Eisteddfod Y Garreg Las, meeting at the Castle
- Cllr Olwen Davies and her father joined me on a tour of the town toilets after hearing about a spate of vandalism. We did not discover any vandalism but unhygienic state of the Lower Mwldan has been reported to CCC and they have confirmed that a cleaner will be sent to the premises.
- I attended a meeting at the Depot with the police to talk to the management and young people using the service.
- The drains on Station Road are blocked, CCC are aware, and will be on site to remedy the situation as soon as possible.
- It was necessary to remove the tree by the Angel due to it leaning dangerously after storm Darrah. On further investigation Cllr Nick Bolton has confirmed that the tree was rotten inside.

- I have forwarded photographs of the damaged slate seat at Gilfach Penbont to CCC, and requested they repair it.
- I attended the coffee morning at the Bowling Club hosted by Cllr Teresa Harries in aid of Cardigan Cancer Care.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan

- Rwyf wedi gofyn i'r ardaloedd palmantog cyffyrddol yn y dref gael sylw. Maent yn anodd eu gweld a'u trafod mewn rhai ardaloedd, oherwydd bod baw yn cronni.
- Creodd y byrstio dŵr diweddar ym Melin y Dre fân broblemau, gan gynnwys y gwasanaeth casglu sbwriel, llwyddais i sicrhau'r gwasanaeth ar ôl rhywfaint o drafod.
- Mae'r cyrtiau tenis yn edrych yn dda, gobeithio y bydd y rhain yn ased a ddefnyddir yn aml unwaith y bydd popeth wedi'i gwblhau.
- Mae draen wedi'i flocio yn Y Rhos wedi'i ddadflocio ar ôl i mi roi gwybod i CSC amdano.
- Mae rhai draeniau ym Maes y Coed yn achosi pryder, mae'r rhain wedi cael eu hadrodd i CSC.
- Mynychais Wasanaeth Dinesig ar gyfer y Cyng Keith Evans, Cadeirydd CSC yn Ysgol Bro Teifi.
- Ymwelais safle â Hafod Y Waun, mae hwn yn gyfleuster gofal ar gyfer cleifion dementia, yn darparu gwasanaeth gwych a safon uchel o ofal.
- Es i weithdy Cynllunio

Cllr Siân Maehrlein Mwldan Ward

- I have requested the tactile paving areas in town to be given attention. They are difficult to see and negotiate in some areas, due to a build up of dirt.
- The recent water burst in Melin y Dre created minor problems, including the rubbish collection service, I managed to ensure the service after some discussion.
- The tennis courts are looking good, hopefully these will be a much-used asset once everything is completed.
- A blocked drain in Y Rhos has been unblocked after I reported it to CCC.
- There are some drains in Maes y Coed causing concern, these have been reported to CCC.
- I attended a Civic Service for Cllr Keith Evans, Chairman of CCC in Ysgol Bro Teifi.
- I made a site visit to Hafod Y Waun, this is a care facility for dementia patients, providing a fantastic service and a high standard of care.
- I attended a Planning workshop.

c) Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report.

- i) **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area**
Bydd y gwaith sydd ei angen yn y parc yn cael ei restru a'i gostio i sylw'r cynghorwyr y mis yma, ac fe fyddir yn ymgynghori â chontractwyr i wneud y gwaith / The work required in the park will be listed and costed for the attention of the councillors this month, contractors will be consulted to carry out the work.
- ii) **Man chwarae amlwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**
Mae wyneb y cwrt tennis wedi'i gwblhau, nid yw'r giât newydd wedi'i gosod eto / The tennis court surface has been completed, the new gate is yet to be installed.
- iii) **Maes Sgrialu /Skateboard Park**
Dim yw adrodd / Nothing to report.

iv) Cyffredinol / General

Mae'r ardaloedd porfa i gyd wedi'u torri, heblaw am y parc sglefrio a fydd yn cael ei wneud yr wythnos hon. Mae rhywfaint o waith strimio i'w orffen hefyd. Mae angen i ni gysylltu â'r gwasanaeth prawf i holi a ydynt yn dymuno peintio rhai ffensys a meinciau, os nad ydynt, mae angen contractio'r gwaith hwn allan. Bydd yr holl blannu yng nghanol y dref wedi'i gwblhau cyn y Pasg.

The grass areas have all been cut, except for the skatepark which will be done this week. There is also some strimming work to be finished. We need to contact the probation service to enquire if they wish to paint some fences and benches, if not this work needs to be contracted out. All the planting in the centre of town will be complete before Easter.

11. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch ei chadwyn.

Sicrhodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.

Quarterly statement by the Mayor regarding safeguarding chain of office.

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

12. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf.

Gardd Gymunedol Rhos y Dre

Cae Chwarae Maesglas

Cyfarfod Grŵp Bio-Amrywiaeth

Dyddiad ar gyfer cynnau golau Nadolig

Items for the next Agenda.

Rhos y Dre Community Garden

Maesglas Playing Field

Bio Diversity Group Meeting

Date for Christmas light switch on

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.55yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 7.55pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date